DYDDIEDIG/DATED 5 / 2 / 2026

**GORCHYMYN (GWAHARDD STOPIO) (SAFLEOEDD CERBYDAU HACNI A SAFLEOEDD GYDA CHYFYNGIAD AROS) BWRDEISTREF SIROL CONWY 2026**

**THE COUNTY BOROUGH OF CONWY (PROHIBITION OF STOPPING) (HACKNEY CARRIAGE STANDS IN THE COUNTY BOROUGH OF CONWY) & LIMITED WAITING ORDER 2026**

**GORCHYMYN**
**ORDER**

Legal Services
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/
Conwy County Borough Council,
Blwch Post 1/PO Box 1
Bae Colwyn/Colwyn Bay
LL29 0GG

Cyf /Ref. CCBC – 049861

**Gorchymyn (Gwahardd Stopio) (Safleoedd Cerbydau Hacni a Safleoedd gyda Chyfyngiad Aros) Bwrdeistref Sirol Conwy 2026**

*Yn unol â'i bwerau dan Adrannau 1 a 2, a Rhan IV Atodlen 9, Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd* 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984"), a'r holl bwerau galluogol eraill, ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") yn gwneud drwy hyn y Gorchymyn canlynol -

1 Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y 16 dydd o Chwefror Dwy fil a chwech ar hugain a gellir cyfeirio ato fel " Gorchymyn (Gwahardd Stopio) (Safleoedd Cerbydau Hacni a Safleoedd gyda Chyfyngiad Aros) Bwrdeistref Sirol Conwy 2026 "

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn.-

ystyr "safle tacsis awdurdodedig" yw unrhyw ddarn o ffordd sydd wedi'i gynnwys oddi mewn i farc ffordd sy'n cydymffurfio â diagram 1028 2 yn Atodlen 6 Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Trafnidiaeth Ffyrdd 2002, ac sydd wedi ei dangos gan farc ffordd felly;

ystyr "lle parcio awdurdodedig" yw unrhyw le parcio, ar ffordd, sydd wedi ei awdurdodi neu wedi ei ddynodi gan Orchymyn sydd wedi ei wneud dan Ddeddf 1984, neu sydd mewn grym fel pe bai wedi cael ei wneud dan y Ddeddf honno;

ystyr "safle bws" yw unrhyw ddarn o ffordd a nodir yn unrhyw un o Erthyglau neu Atodlenni'r Gorchymyn hwn fel un sydd wedi ei fwriadu ar gyfer aros gan fysiau sydd wedi ei gynnwys oddi mewn i farc ffordd sy'n cydymffurfio â diagramau 1025 1, 1025.3 neu 1025 4 yn Atodlen 6 Rheoliadau Arwyddion Trafnidiaeth a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002, neu sydd wedi ei *ddangos gan farc ffordd felly;*

yr un ystyr sydd i "gerbyd hacni" ag sydd gan "hackney carriage" yn Adran 38(1) Deddf Cerbydau (Tollau) 1971,

yr un ystyr sydd i "fathodyn unigolyn gydag anabledd" ag yn Rheoliadau Pobl Gydag Anabledd (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000,

yr un ystyr sydd i "disg parcio" ag yn Rheoliad Rhif 8 Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esgusodiadau ar gyfer Pobl Gydag Anabledd) (Cymru) 2000,

(2) I bwrpas y Gorchymyn hwn, ystyrir bod cerbyd yn arddangos bathodyn unigolyn gydag anabledd yn y lle perthnasol:

(a) pan nad yw'r bathodyn wedi peidio â bod mewn grym; a

(b) (i) pan fo'r bathodyn yn cael ei arddangos ar forden flaen neu banel deialau'r cerbyd, neu

(ii) *pan fo'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg ar flaen neu ar* ochr agos y cerbyd (os nad yw'r cerbyd wedi ei ffitio â borden flaen neu banel deialau), fel bod modd darllen blaen y bathodyn yn glir o'r tu allan i'r cerbyd

(3) I bwrpas y Gorchymyn hwn, ystyrir bod cerbyd yn arddangos disg parcio yn y lle perthnasol·

(a) pan fo'r disg yn cael ei arddangos ar forden flaen neu banel deialau'r cerbyd, neu

(b) pan fo'r disg yn cael ei arddangos mewn man amlwg ar y cerbyd, os nad oes gan y cerbyd forden flaen neu banel deialau.

Oni bai ein bod yn nodi fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu Atodlen sydd â'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3 Dynodir y darnau o ffordd a nodir yn Atodlenni 1 a 2 drwy hyn yn safleoedd tacsis awdurdodedig a gosodir arwyddion i ddynodi hynny yn unol â'r Atodlen

4. Yn amodol ar Erthygl 3 ac eithrio'r hyn a nodir yn Erthygl 8 y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw un, oni bai ei fod yn gweithredu dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl yr heddlu neu swyddog gorfodaeth sifil mewn lifrai, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw adeg ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn a bydd unrhyw un nad yw'n cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn yn cyflawni trosedd

5. Ac eithrio'r hyn a nodir yn Erthygl 8 y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw un, oni bai ei fod yn gweithredu dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl yr heddlu neu swyddog gorfodaeth sifil mewn lifrai, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod 1 Mai – 30 Medi ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2

6 Ac eithrio'r hyn a nodir yn Erthygl 9 y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw un, oni bai ei fod yn gweithredu dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl yr heddlu neu swyddog gorfodaeth sifil mewn lifrai, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros am gyfnod hirach na 90 munud na dychwelyd o fewn 120 munud ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 3.

7 Ac eithrio'r hyn a nodir yn Erthygl 9 y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw un, oni bai ei fod yn gweithredu dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl yr heddlu neu swyddog gorfodaeth sifil mewn lifrai, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros am gyfnod hirach na 120 munud na dychwelyd o fewn 120 munud rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 4

8 Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 3, 4 a 5 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau ffordd y mae'r Erthygl honno'n cyfeirio atynt, am gyhyd ag y bydd angen gwneud hynny i alluogi -

(1) (a) Defnyddio'r cerbyd, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r gweithrediadau canlynol, sef·-

(i) Gweithrediadau adeiladu, dymchwel neu ddiwydiannol.

(ii) Symud unrhyw rwystr ar draffig

(iii) Cynnal, gwella neu ailadeiladu'r darn[au] o ffordd dan sylw.

(iv) Gosod, codi, newid, neu drwsio, ar y darn[au] ffordd dan sylw neu ar dir cyfagos, unrhyw garthffos, neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar cyflenwi nwy, dwr neu drydan, neu unrhyw offer telegyfathrebu fel y maent yn cael eu diffinio yn Neddf Telegyfathrebu 1984

(b) Defnyddio'r cerbyd, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, at wasanaeth awdurdod lleol neu gwmni gwasanaeth cyhoeddus, yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.

(c) Defnyddio cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol dan Adran 125, Deddf Gwasanaethau Post 2000

(d) Defnyddio'r cerbyd at ddibenion y frigâd dân, yr heddlu neu ambiwlans.

(e) Mewn unrhyw achos lle mae'r unigolyn sy'n rheoli'r cerbyd –

(i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith
(ii) yn gorfod stopio i atal damwain, neu
(iii) *yn cael ei atal rhag mynd ymlaen gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth*

(2) Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 3, 4 a 5 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi na chaniatáu unrhyw gerbyd sy'n gerbyd hacni, i aros ar safle tacsis anawdurdodedig

9 Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 6 a 7 yn y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi unrhyw gerbyd i aros ar y darn(au) o ffordd a gyfeirir atynt am gyhyd ag sydd angen i alluogi -

(a) Unigolyn fynd mewn neu allan o'r cerbyd.

(b) Llwytho neu ddadlwytho nwyddau ar neu oddi ar y cerbyd

(c) Defnyddio'r cerbyd, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef -

(i) Gweithrediadau adeiladu, dymchwel neu ddiwydiannol.

(ii) Symud unrhyw rwystr ar draffig.

(iii) Cynnal, *gwella neu ailadeiladu'r darn[au] o ffordd dan* sylw.

(iv) Gosod, codi, newid, neu drwsio, ar y darn[au] ffordd dan sylw neu ar dir cyfagos, unrhyw garthffos, neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar cyflenwi nwy, dwr neu drydan, neu unrhyw offer telegyfathrebu fel y maent yn cael eu diffinio yn Neddf Telegyfathrebu 1984.

(d) Defnyddio'r cerbyd, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, at wasanaeth awdurdod lleol neu gwmni gwasanaeth cyhoeddus, yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol

(e) Defnyddio cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol dan Adran 125, Deddf Gwasanaethau Post 2000

(f) Defnyddio'r cerbyd i aros wrth ymyl neu'n agos at unrhyw eiddo sydd wrth ymyl neu'n gyfagos at y darnau o ffordd dan sylw am gyhyd ag sydd angen mewn cysylltiad â phriodas neu angladd

(g) Defnyddio'r cerbyd at ddibenion y frigâd dân, yr heddlu neu ambiwlans.

10. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 6 a 7 y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd unigolyn gydag anabledd sy'n arddangos bathodyn unigolyn gydag anabledd yn y lle perthnasol, i aros am gyfnod digyfyngiad ar y darnau o ffordd a gyfeirir atynt yn yr Erthygl honno.

11. Diddymir drwy hyn Orchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llefydd Parcio ar y Stryd) 2006 a Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Gwahardd Stopio) (Safleoedd Cerbydau Hacni) a Chyfyngu ar Aros) 2010 cyn belled â'i fod yn ymwneud â'r cyfyngiadau a osodwyd ar y darnau ffordd a nodwyd yn Atodlenni 5 a 7 y Gorchymyn hwn ac fel arall yn parhau i fod mewn grym

12. Diddymir drwy hyn Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy (Ffyrdd Amrywiol Conwy) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2011 cyn belled â'i fod yn ymwneud â'r cyfyngiadau a osodwyd ar y darnau ffordd a nodwyd yn Atodlen 6 y Gorchymyn hwn ac fel arall yn parhau i fod mewn grym

13 Cyn belled ag y bo unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro ag amod sydd wedi'i gynnwys mewn Gorchymyn sydd wedi ei wneud, neu sydd mewn grym fel pe bai wedi ei wneud, dan Ddeddf 1984, ac sydd mewn grym pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, ac sy'n gosod cyfyngiad neu waharddiad ar gerbydau heblaw bysiau neu fysus moethus mewn safle bws, neu'n esgusodi rhag cyfyngiad neu waharddiad o'r fath, darpariaeth y Gorchymyn hwnnw fydd yn cael blaenoriaeth.

14.Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau sy'n cael eu gosod gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu amod sy'n cael ei osod gan unrhyw reoliadau sydd wedi eu gwneud dan Ddeddf 1984, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi eu gwneud naill ai dan y Ddeddf honno neu gan unrhyw ddeddf arall neu oddi tani, ac ni fyddant yn tynnu oddi wrtho

**Atodlen 1: Safleoedd Tacsis**

| | |
|---|---|
| **Conway Road, Llandudno** | **Ochr ogleddol:** O bwynt 7 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Garage Street am bellter o 9 metr tua'r gogledd-orllewin |
| **Mostyn Street, Llandudno (*Fortes*)** | **Ochr ogledd-ddwyreiniol:** O bwynt 143 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Clomnel Street am bellter o 10 metr tua'r dwyrain |
| **Castle Street, Conwy** | **Ochr orllewinol:** o bwynt 61 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Castle Square am bellter o 6 metr tua'r gogledd-orllewin |

**Atodlen 2: Safle Tacsis Tymhorol, rhwng 1 Mai a 30 Medi**

| | |
|---|---|
| **Station Road, Betws-y-coed** | **Ochr ddwyreiniol:** o bwynt 36 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r A5 Holyhead Road am bellter o 6 metr tua'r gogledd |

**Atodlen 3: Cyfyngiad Aros o 90 munud, Dim dychwelyd o fewn 120 munud**

| | |
|---|---|
| **Conway Road, Llandudno** | **Ochr orllewinol:** o bwynt 16 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylch Tudor am bellter o 48 metr tua'r gogledd-orllewin |

**Atodlen 4: Cyfyngiad Aros o 120 munud, Llun i Gwener 9am – 5pm Dim dychwelyd o fewn 120 munud**

| | |
|---|---|
| **Village Road, Llanfairfechan** | **Ochr dde-orllewinol:** o'i chyffordd â ffordd gangen Village Road am bellter o 15 metr |

**Atodlen 5: Dirymu Safleoedd Tacsis llawn amser**

| | |
|---|---|
| **Clarence Road, Craig-y-Don, Llandudno** | **Ochr ddwyreiniol:** o bwynt 28 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r B5115 The Parade am bellter o 18 metr tua'r de |
| **Conway Road, Llandudno** | **Ochr orllewinol:** o bwynt 16 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â *Chylch Tudor am bellter o 48 metr tua'r gogledd-orllewin* |
| **Village Road, Llanfairfechan** | **Ochr dde-orllewinol:** o'i chyffordd â ffordd gangen Village Road am bellter o 9 metr |

**Atodlen 6: Dirymiad rhannol**
**Bae gyda Chyfyngiad Aros rhwng 8am – 7pm, 30 munud Dim dychwelyd o fewn 120 munud**

| | |
|---|---|
| **Castle Street, Conwy** | **Ochr orllewinol:** o bwynt 61 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Castle Square am bellter o 6 metr tua'r gogledd-orllewin |

**Atodlen 7: Dirymu Safle Tacsis 6pm – 6am**

| | |
|---|---|
| **Mostyn Street, Llandudno (*Fortes*)** | **Ochr ogledd-ddwyreiniol:** O bwynt 143 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Clomnel Street am bellter o 10 metr tua'r dwyrain |

**RHODDWYD** dan Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y 5
dydd o Chwefror Dwy fil chwech ar hugain

**The County Borough of Conwy (Prohibition of Stopping Hackney Carriage Stands) & Limited Waiting Order 2026**

The Conwy County Borough Council (hereinafter referred to as "the Council") in exercise of its powers under Sections 1 and 2 and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984 (hereinafter referred to as "the Act of 1984"), and of all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Act of 1984 hereby makes the following Order:-

1 This Order shall come into operation on the 16 day of February Two thousand and twenty six and may be cited as "The County Borough of Conwy (Prohibition of Stopping Hackney Carriage Stands) & Limited Waiting Order 2026"

2 (1) In this Order.-

"authorised cab rank" means any area of carriageway which is comprised within and indicated by a road marking complying with diagram 1028 2 in Schedule 6 of the Traffic Signs Regulations and General Directions 2002,

"authorised parking place" means any parking place on a road authorised or designated by an Order made or having effect as if made under the Act of 1984;

"bus stop area" means any area of carriageway in any length of road specified in any Article or Schedule hereto intended for the waiting of buses which is comprised within or indicated by a road marking complying with either diagrams 1025 1, 1025 3, 1025 4 in Schedule 6 to the Traffic Signs Regulations and General Directions 2002,

"hackney carriage" has the same meaning as in Section 38(1) of the Vehicles (Excise) Act, 1971;

"disabled person's badge" has the same meaning as in the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000;

"parking disc" has the same meaning as in Regulation 8 of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

(2) For the purpose of this Order a vehicle shall be regarded as displaying a disabled person's badge in the relevant position, if -

(a) the badge has not ceased to be in force; and

(b) (i) the badge is exhibited on the dashboard or fascia of the vehicle, or

(ii) where the vehicle is not fitted with a dashboard or fascia, the badge is exhibited in a conspicuous position on the front or near side of the vehicle, so that the front of the badge is clearly legible from outside the vehicle.

(3) For the purposes of this Order a vehicle shall be regarded as displaying a parking disc in the relevant position if.-

(a) the disc is exhibited on the dashboard or fascia of the vehicle, or

(b) where the vehicle is not fitted with a dashboard or fascia the disc is clearly exhibited in a conspicuous position on the vehicle.

Except where otherwise stated any reference in this Order to a numbered Article or Schedule is a reference to the Article or Schedule bearing that number in this Order.

3 The lengths of road specified in Schedules 1 and 2 are hereby designated as authorised cab ranks and signed as specified in the appropriate Schedule

4 Subject to Article 3 and save as provided in Article 8 of this Order no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable or civil enforcement officer in uniform, cause or permit any vehicle to stop at any time in the lengths of road specified in Schedule 1 to this Order and any person not complying with this Order shall be committing an offence

5. Subject to Article 3 and save as provided in Article 8 of this Order no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable or civil enforcement officer in uniform, cause or permit any vehicle to stop at any time from 1 May – 30 September in the length of road specified in Schedule 2.

6. Save as provided in Article 9 of this Order no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable or civil enforcement officer in uniform, cause or permit any vehicle to wait for a longer period than 90 minutes with no return within 120 minutes in the lengths of road specified in Schedule 3

7. Save as provided in Article 9 of this Order no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable or civil enforcement officer in uniform, cause or permit any vehicle to wait for a longer period than 120 minutes with no return within 120 minutes between the hours of 9am and 5pm Monday to Friday in the length of road specified in Schedule 4

8 Nothing in Articles 3, 4 and 5 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the lengths of road referred to therein for so long as may be necessary to enable -

(1) (a) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely:-

(i) Building, industrial or demolition operations

(ii) The removal of any obstruction to traffic.

(iii) The maintenance, improvement or reconstruction of the said length(s) of road.

(iv) The laying, erection, alteration or repair, in or in land adjacent to the said lengths of road, of any sewer or of any main pipe or apparatus for the supplying of gas, water, or electricity, or of any Telecommunications apparatus as defined in the Telecommunications Act, 1984

(b) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road to be used in the service of a local authority or a public utility company in pursuance of statutory powers or duties

(c) The vehicle of a universal service provider under the Section 125 of the Postal Services Act 2000

(d) The vehicle to be used for fire brigade, police or ambulance purposes.

(e) In any case where the person in control of the vehicle –

(i) is obliged by law to stop
(ii) is obliged to stop so as to prevent an accident, or
(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside his control

(2) Nothing in Articles 3, 4 and 5 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle being a hackney carriage, to wait upon an authorised cab rank.

9. Nothing in Articles 6 and 7 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the length(s) of road referred to therein for so long as may be necessary to enable -

(a) A person to board or alight from the vehicle

(b) Goods to be loaded on to or unloaded from the vehicle

(c) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely:-

(i) Building, industrial or demolition operations

(ii) The removal of any obstruction to traffic.

(v) The maintenance, improvement or reconstruction of the said length(s) of road

(vi) The laying, erection, alteration or repair, in or in land adjacent to the said length(s) of road, of any sewer or of any main pipe or apparatus for the supplying of gas, water, or electricity, or of any Telecommunications apparatus as defined in the Telecommunications Act, 1984

(d) The vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road to be used in the service of a local authority or a public utility company in pursuance of statutory powers or duties

(e) The vehicle of a universal service provider under the Section 125 of the Postal Services Act 2000

(f) The vehicle to wait at or near to any premises situated on or adjacent to the said length(s) of road for so long as such waiting by that vehicle is reasonably necessary in connection with any wedding or funeral

(g) The vehicle to be used for fire brigade, police or ambulance purposes

10 Nothing in Articles 6 and 7 of this Order shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge to wait for an unlimited length of time in the lengths of road referred to in that Article.

11 The (Prohibition and Restriction of Waiting and On-Street Parking Places) Consolidation Order 2006 and CCBC (Prohibition of Stopping) (Hackney Carriage Stands in The County Borough Of Conwy) & Limited Waiting Order) 2010 is hereby revoked insofar only as it relates to the restrictions imposed on the lengths of road specified in Schedules 5 and 7 of this Order and shall otherwise remain in full force and effect

12. The CCBC (Various Roads Conwy) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2011 is hereby revoked insofar only as it relates to the restrictions imposed on the lengths of road specified in Schedule 6 of this Order and shall otherwise remain in full force and effect.

13 Insofar as any provision of this Order conflicts with a proviso which is contained in an Order made or having effect as if made under the Act of 1984 and existing at the time when this Order comes into operation, and which imposes a restriction or prohibition on vehicles other than stage carriages or express carriages in a bus stop area or grants an exemption from such restriction or prohibition, that provision of that Order shall prevail

14 The prohibition and restrictions imposed by this Order shall be in addition to and not in derogation from any restriction or requirement imposed by any regulations made or having effect as if made under the Act of 1984 or by or under any other enactment.

**GIVEN** under the Common Seal of the Conwy County Borough Council the 5 day of February , Two thousand and twenty six

**Schedule 1 : Taxi Ranks**

| | |
|---|---|
| **Conwy Road, Llandudno** | **North side:** From a point 7m northwest of its junction with Garage Street for a distance of 9m in a north westerly direction |
| **Mostyn Street, Llandudno (Fortes)** | **North east side.** From a point 143m west of its junction with Clomnel Street for a distance of 10m in an easterly direction |
| **Castle Street Conwy** | **West side:** from a point 61m north west of its junction with Castle Square for a distance of 6m in a north westerly direction |

**Schedule 2 : Seasonal Taxi Rank 1 May – 30 September**

| | |
|---|---|
| **Station Road, Betws Y Coed** | **East side:** from a point 36m north of its junction with A5 Holyhead Road for a distance of 6m in a northerly direction |

**Schedule 3: 90 minutes Limited Waiting, No return within 120 minutes**

| | |
|---|---|
| **Conway Road, Llandudno** | **West side:** from a point 16m north west of its junction with Tudor Crescent for a distance of 48m in a north westerly direction |

**Schedule 4: 120 minutes Limited Waiting, Mon – Fri 9am – 5pm No return within 120 minutes**

| | |
|---|---|
| **Village Road, Llanfairfechan** | **South west side:** from its junction with Village Road spur road for a distance of 15m |

**Schedule 5 : Revocation of full-time Taxi Ranks**

| | |
|---|---|
| **Clarence Road, Craig Y Don, Llandudno** | **East side:** from a point 28m south west of its junction with B5115 The Parade for a distance of 18m in a southerly direction |
| **Conway Road, Llandudno** | **West side:** from a point 16m north west of its junction with Tudor Crescent for a distance of 48m in a north westerly direction |
| **Village Road, Llanfairfechan** | **South west side:** from its junction with Village Road spur road for a distance of 9m |

**Schedule 6 : Partial revocation**
**Limited Waiting Bay 8am-7pm, 30 minutes No return within 120 minutes**

| | |
|---|---|
| **Castle Street Conwy** | **West side:** from a point 61m north west of its junction with Castle Square for a distance of 6m in a north westerly direction |

**Schedule 7 : Revocation of 6pm – 6am Taxi Rank**

| | |
|---|---|
| **Mostyn Street, Llandudno (Fortes)** | **North east side**: From a point 143m west of its junction with Clomnel Street for a distance of 10m in an easterly direction |


Cyflawnwyd fel Gweithred trwy osod
**SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**
yng ngŵydd :-

Executed as a Deed by affixing
**the COMMON SEAL of the**
**CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL**
in the presence of :-

C. L. Williams

**Swyddog Selio Awdurdodedig**
**Authorised Sealing Officer**

189412




©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023380.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig a defnyddio'r data hwn.

©Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100023380.
Use of this data is subject to terms and conditions.

**Allwedd / Key**

| | | |
|---|---|---|
| Gwared safle tacsi | (red) | Removed Taxi Rank |
| Safle Tacsi | (green) | Taxi Rank |
| Aros Cyfyngedig 90 mun Dim dychwelyd 2 awr | (blue) | Limited Waiting 90 mins No Return 2 hours |

**NODDIAU / NOTES:**

- Rhaid darparu pob marc ffordd gerbydau yn unol â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002, y Llawlyfr Arwyddion Traffig (Penodau 1-8), a darluniau gwaith Llywodraeth Cymru - Rhaid darparu testun Cymraeg uwch ben y testun Saesneg, yn unol a pholisi Conwy.
  All carriageway markings must be provided in accordance with the Traffic Signs and General Directions 2002, the Traffic Signs Manual (Chapters 1-8), and Welsh Assembly Government working drawings - Welsh text must be provided above English text, as per Conwy policy.
- Pob dimensiwn mewn milimedrau oni bai y dangosir.
  All dimensions are in millimetres unless stated.
- Rhoddir trwydded ddirymadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig at gyfer celfyddyd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
  Ni chewch gopia, is-drwyddedu, dosbarthu gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
  Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.
  You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable license solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period Conwy County Borough Council makes it available.
  You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or make available the Licensed data to third parties in any form; and
  Third party rights to enforce the terms of this license shall be reserved to Ordnance Survey.

| Ph/Rev | Manylion / Details | Diwyg Ph | Gwir gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| DIWYGIADAU / REVISIONS (Os yw'n berthnasol / When applicable) | | Rev by | Chk by | Date |

**Geraint Edwards, BEng (Hons) CEng FICE**

Pennaeth Gwasanaeth
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Coed Pella
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7AZ

Head of Service
CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL
Environment, Roads and Facilities
Coed Pella
Conway Road
Colwyn Bay
LL29 7AZ

Graddfa / Scale: NTS

Darluniwyd gan / Drawn by: JCS

Awdurdodwyd gan / Authorized by:


Adain / Section: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau / Environment Roads and Facilities

Dyddiad / Date: Rhagfyr 2025 / December 2025

Lleoliad / Location: **Conway Road, Llandudno**

Teitl / Title: **CCBC 049681 Safle tacsis yn newid / Taxi Rank Changes**

Llun Rhif / Dwg No: **TL/11/02/24/303**




©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023380.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig a defnyddio'r data hwn.
©Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023380.
Use of this data is subject to terms and conditions.


**Allwedd / Key**

| | |
|---|---|
| Safle Tacsi | Taxi Rank |
| Anabl | Disabled |
| Safle Tacsi Noswaith 6pm - 6am | Evening Taxi Rank 6pm - 6am |

**NODDIAU / NOTES:**

| Ph Rev | Manylion / Details | Dwyg Ph | Gwr gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| DIWYGIADAU / REVISIONS (Os yw'n berthnasol / When applicable) | | Rev by | Chk by | Date |

Geraint Edwards, BEng (Hons) CEng FICE

| | |
|---|---|
| Pennaeth Gwasanaeth | Head of Service |
| CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY | CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL |
| Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Environment, Roads and Facilities |
| Coed Pella | Coed Pella |
| Ffordd Conwy | Conway Road |
| Bae Colwyn | Colwyn Bay |
| LL29 7AZ | LL29 7AZ |

Graddfa / Scale: NTS

Darluniwyd gan / Drawn by: JCS

Awdurdodwyd gan / Authorized by:


Adain / Section: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau / Environment Roads and Facilities

Dyddiad / Date: Rhagfyr 2025 / December 2025

Lleoliad / Location:
Stryt Mostyn, Llandudno
Mostyn Street, Llandudno

Teitl / Title:
CCBC 049681
Safle tacsis yn newid
Taxi Rank Changes

Llun Rhif / Dwg No:
**TL/11/02/24/304**




©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023380.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig a defnyddio'r data hwn.
©Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100023380.
Use of this data is subject to terms and conditions.

**Allwedd / Key**

| | | |
|---|---|---|
| Anabl | (grey) | Disabled |
| Safle Tacsi | (green) | Taxi Rank |

**NODDIAU / NOTES:**

All dimensions are in millimetres unless stated

| Ph/Rev | Manylion / Details | Dwyg Ph | Gwr gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| DIWYGIADAU / REVISIONS (Os yw'n berthnasol / When applicable) | | Rev by | Chk by | Date |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Geraint Edwards, BEng (Hons) CEng FICE**

| | |
|---|---|
| Pennaeth Gwasanaeth | Head of Service |
| CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY | CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL |
| Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Environment, Roads and Facilities |
| Coed Pella | Coed Pella |
| Ffordd Conwy | Conway Road |
| Bae Colwyn | Colwyn Bay |
| LL29 7AZ | LL29 7AZ |

Graddfa / Scale: NTS

Darluniwyd gan / Drawn by: JCS

Awdurdodwyd gan / Authorized by:


Adain / Section: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau / Environment Roads and Facilities

Dyddiad / Date: Rhagfyr 2025 / December 2025

Lleoliad / Location:
Stryd Castell, Conwy
Castle Street, Conwy

Teitl / Title:
CCBC 049681
Safle tacsis yn newid
Taxi Rank Changes

Llun Rhif / Dwg No:
**TL/11/02/24/309**




©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023380.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig a defnyddio'r data hwn.

©Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100023380.
Use of this data is subject to terms and conditions.

**Allwedd / Key**

Safle Tacsi Tymhorol 1 Mai - 30 Medi — Seasonal Taxi Rank 1 Mai - 30 Medi

**NODDIAU / NOTES:**

All carriageway markings must be provided in accordance with the Traffic Signs and General Directions 2002, the Traffic Signs Manual (Chapters 1-8), and Welsh Assembly Government working drawings - Welsh text must be provided above English text, as per Conwy policy.

All dimensions are in millimetres unless stated.

You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period Conwy County Borough Council makes it available.
You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or make available the Licensed data to third parties in any form, and
Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.

| Ph Rev | Manylion / Details | Diwyg Ph | Gwir gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| DIWYGIADAU / REVISIONS (Os yw'n berthnasol / When applicable) | | Rev by | Chk by | Date |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Geraint Edwards, BEng (Hons) CEng FICE**

Pennaeth Gwasanaeth
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Coed Pella
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7AZ

Head of Service
CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL
Environment, Roads and Facilities
Coed Pella
Conwy Road
Colwyn Bay
LL29 7AZ

Graddfa / Scale: NTS

Darluniwyd gan / Drawn by: JCS

Awdurdodwyd gan / Authorized by:


Adain / Section: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Environment Roads and Facilities

Dyddiad / Date: Rhagfyr 2025 December 2025

Lleoliad / Location:
**Ffordd Yr Orsaf, Betws Y Coed**
**Station Road Betws Y Coed**

Teitl / Title:
**CCBC 049681**
**Safle tacsis yn newid**
**Taxi Rank Changes**

Llun Rhif / Dwg No:
**TL/11/02/24/312**




©Hawlfraint y Goron a howliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023380.
Mae teierau ac amodau'n gysylltiedig a defnyyddio'r data hwn.

©Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100023380.
Use of this data is subject to terms and conditions.

**Allwedd / Key**

| | | |
|---|---|---|
| Gwared safle tacsi | (red) | Removed Taxi Rank |
| Aros Cyfyngedig 2 awr<br>Llun- Gwe 9am - 5pm<br>Dim dychwelyd 2 awr | (blue) | 2 hr Limited Waiting<br>Mon- Fri 9am - 5pm<br>No Return 2 hour |

**NODDIAU / NOTES:**

[illegible]

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ph Rev | Manylion / Details | Dwyg Ph | Gwir gan | Dyddiad |
| DIWYGIADAU / REVISIONS (Os yw'n berthnasol / When applicable) | | Rev by | Chk by | Date |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Geraint Edwards, BEng (Hons) CEng FICE**

| | |
|---|---|
| Pennaeth Gwasanaeth | Head of Service |
| CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY | CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL |
| Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Environment, Roads and Facilities |
| Coed Pella | Coed Pella |
| Ffordd Conwy | Conway Road |
| Bae Colwyn | Colwyn Bay |
| LL29 7AZ | LL29 7AZ |

Graddfa / Scale: NTS

Darluniwyd gan / Drawn by: JCS

Awdurdodwyd gan / Authorized by:


Adain / Section: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau / Environment Roads and Facilities

Dyddiad / Date: Rhagfyr 2025 / December 2025

Lleoliad / Location: **Village Road Llanfairfechan**

Teitl / Title:
**CCBC 049681**
**Safle tacsis yn newid**
**Taxi Rank Changes**

Llun Rhif / Dwg No:
**TL/11/02/24/311**





©Hawlfraint y Goron a howliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023380.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig a defnyddio'r data hwn.

©Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100023380.
Use of this data is subject to terms and conditions.


**Allwedd / Key**

Gwared safle tacsi — Removed Taxi Rank

**NODDIAU / NOTES:**

- [illegible]
  All carriageway markings must be provided in accordance with the Traffic Signs and General Directions 2002, the Traffic Signs Manual (Chapters 1-8), and Welsh Assembly Government working drawings - Welsh text must be provided above English text, as per Conwy policy.
- Pob dimensiwn mewn milimedrau oni bai y dangosir.
  All dimensions are in millimetres unless stated.
- [illegible]
  You are granted a non exclusive, royalty free, revocable license solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period Conwy County Borough Council makes it available.
  You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or make available the Licensed data to third parties in any form; and
  Third party rights to enforce the terms of this license shall be reserved to Ordnance Survey.

| Ph/Rev | Manylion / Details | Diwyg Ph | Cwir gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| DIWYGIADAU / REVISIONS (Os yw'n berthnasol / When applicable). | | Rev by | Chk by | Date |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Geraint Edwards, BEng (Hons) CEng FICE**

| Pennaeth Gwasanaeth | Head of Service |
|---|---|
| CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY | CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL |
| Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Environment, Roads and Facilities |
| Coed Pella | Coed Pella |
| Ffordd Conwy | Conway Road |
| Bae Colwyn | Colwyn Bay |
| LL29 7AZ | LL29 7AZ |

Graddfa / Scale: NTS

Darluniwyd gan / Drawn by: JCS

Awdurdodwyd gan / Authorized by:

Adain / Section: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau / Environment Roads and Facilities

Dyddiad / Date: Rhagfyr 2025 / December 2025

Lleoliad / Location: **Clarence Road, Llandudno**

Teitl / Title: **CCBC 049681**
**Safle tacsis yn newid**
**Taxi Rank Changes**

Llun Rhif / Dwg No: **TL/11/02/24/307**